

Diogelu Tomenni Glo yng Nghymru: Ymgynghoriad

Beth mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ei wneud a pham?

Daeth y tirlithriad ar domen lo Tylorstown ym mis Chwefror 2020 yn sgil stormydd Ciara a Denis, â pheryglon gwaddol glofaol Cymru i amlygrwydd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i gyflwyno deddfwriaeth i ddelio ag etifeddiaeth canrifoedd o gloddio am lo ac i ddarparu trefn reoli well ar gyfer gwneud tomenni glo yn ddiogel. Er mwyn ein helpu â'r gwaith o ddatblygu deddfwriaeth, rydym wedi nodi ein cynigion mewn Papur Gwyn ar Ddiogelwch Tomenni Glo (Cymru). Nod y cynigion yw mynd i'r afael â'r bylchau niferus yn y ddeddfwriaeth bresennol, a nodwyd gan Gomisiwn y Gyfraith yn ei adolygiad – *'Rheoleiddio Diogelwch Tomenni Glo yng Nghymru'*. Mae'r Papur Gwyn yn cyflwyno cyfres o gynigion ar gyfer rheoli, monitro a goruchwyllo tomenni glo nas defnyddir yng Nghymru mewn ffordd gyson. Mae hwn yn gam bras tuag at gyflawni ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i gyflwyno deddfwriaeth i ddelio ag etifeddiaeth canrifoedd o gloddio am lo a gwneud tomenni glo yn ddiogel, hynny er lles ein cymunedau a'r amgylchedd.

Mae'r cynigion yn adeiladu ar argymhellion Comisiwn y Gyfraith yn ei adroddiad ym mis Mawrth 2022. Daeth y Comisiwn i'r casgliad nad yw'r drefn bresennol yn addas i'r diben gan nad yw'n cynnwys unrhyw ddyletswyddau gorfodol ar berchnogion i fonitro a chynnal a chadw tomenni ar eu tir ac mae'r pwerau gorfodi sy'n bod, megis y broses o gael mynd ar dir preifat, yn wan ac yn aneffeithiol iawn.

Nod y drefn newydd arfaethedig yw diogelu ein cymunedau, diogelu seilwaith hanfodol Cymru a chynnal yr amgylchedd drwy gyflwyno trefn ar gyfer monitro a rheoli tomenni glo yng Nghymru sy'n gymesur ac yn orfodadwy, er mwyn lleihau'r perygl o dirlithriadau pellach.

Mae Comisiwn y Gyfraith wedi cynnal asesiad effaith¹ i gefnogi ei adroddiad *'Rheoleiddio Diogelwch Tomenni Glo yng Nghymru'*.

¹ Adroddiad Comisiwn y Gyfraith [Impact Assessment template](#) (yn cyfateb i Asesiad Effaith Rheoleiddiol yng Nghymru)

Y tymor hir

Nod cynigion y Papur Gwyn yw cyflwyno fframwaith newydd i ddiogelu cymunedau sy'n byw yng nghyffiniau tomenni glo, hynny cyn gynted â phosibl ac yn yr hirdymor, drwy gynnal archwiliadau rheolaidd a darparu trefn cynnal a chadw i leihau tirlithriadau yn y dyfodol.

Yn 2021, cydnabu'r Asesiad Risg annibynnol o'r Newid yn yr Hinsawdd yng Nghymru (CCRA3)² bod potensial i effeithiau'r hinsawdd gynyddu'r risg o dirlithriadau ac ymsuddiant sy'n gysylltiedig â hen lofeydd yn y dyfodol. Mae'n dilyn Adroddiad Arbennig Panel Rhynglywodraethol 2018 ar y Newid yn yr Hinsawdd (IPPC) *Special Report on Global Warming of 1.5 C*, sy'n cyfeirio at dystiolaeth sylweddol bod cynhesu byd-eang eisoes wedi arwain at law trwm dwysach ac amlach, gan gynnwys yng ngogledd Ewrop, a bydd yn arwain at gynnydd pellach³.

Ym mis Gorffennaf 2021, nododd y Swyddfa Dywydd batrwm cynyddol o dywydd gwlypach, stormydd amlach a glawiad trymach. O ganlyniad i'r newid yn yr hinsawdd, mae 13% yn fwy o law yn disgyn ar feysydd glo'r De ers y 1960au, gyda'r gyfran sy'n disgyn ym misoedd y gaeaf wedi cynyddu hefyd, sy'n golygu bod y glaw yn llai gwasgaredig dros y flwyddyn. Achosir nifer o dirlithriadau ar domenni go, gan gynnwys yr un yn Nhyllorstown, gan y cynnydd yn y glaw. Mae hynny'n effeithio ar y systemau draenio peirianyddol, nad oedd rhai ohonynt wedi'u cynllunio i ymdopi â'r glawiad presennol na'r lefelau a ragwelir.

Nod y cynigion yn y Papur Gwyn yw helpu i liniaru'r risgiau hyn nid yn unig drwy gynnal archwiliadau a gwaith cynnal a chadw ond hefyd i'r awdurdod goruchwylio ddefnyddio technolegau priodol (fel lloerennau, *tiltmeters* a chamêrau anffurfiadau fel sy'n cael eu treialu ar hyn o bryd yn y rhaglen diogelwch tomenni glo) wrth fonitro tomenni i ddarparu gwybodaeth hanfodol am symudiadau tir a dŵr a sicrhau y gall y system fonitro ymateb i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol.

Atal

Mae'r cynigion a nodir yn y Papur Gwyn yn ataliol eu natur. Hanfod y newid yw cyflwyno trefn newydd, sy'n rhagweithiol yn hytrach nag adweithiol, a fydd yn cynnwys monitro parhaus (gyda thomenni statws uwch yn cael eu harchwilio'n amlach ac yn fanylach) a chynnal a chadw tomenni glo. Bydd angen cynllun rheoli ar bob tomen sy'n gymesur â lefel y perygl i dderbynleoedd (cymunedau, eiddo, seilwaith, ecosystemau a safleoedd diwylliannol). Drwy gyflwyno'r drefn, y nod yw lleihau'r tebygolrwydd o dirlithriadau yn y dyfodol ar domenni glo yng Nghymru, gan leihau ac atal risg i fywyd a niwed i eiddo ac i seilwaith hanfodol yn ogystal ag i'r amgylchedd. Gall effaith tirlithriadau fod yn drychinebus gyda marwolaethau posibl,

² Third UK Climate Change Risk Assessment Technical Report: Summary for Wales, p26

³ IPCC, Special Report, Global Warming of 1.5°, Chapter 3

anafiadau, difrod i'r amgylchedd ac i seilwaith hanfodol, effaith ar gymunedau a'r gost sylweddol o atgyweirio.

Yn ogystal, gall cyfundrefn reoli effeithiol gyfrannu at ostwng costau adfer yn sylweddol gan fod archwiliadau rheolaidd a gwaith cynnal a chadw yn helpu i nodi unrhyw broblemau fel y gellir mynd i'r afael â nhw cyn gynted â phosibl, gan leihau'r angen am waith drutach ar ôl tirlithriadau. Adlewyrchir hyn yn yr amcangyfrif bras o £20 miliwn i adfer tirlithriad Tylorstown.

Cydweithredu

Mae'r cynigion polisi hyn wedi'u datblygu trwy gydweithio â phartneriaid yn Nhasglu Diogelwch Tomenni Glo y Prif Weinidog. Mae argymhellion Comisiwn y Gyfraith, a oedd yn cynnwys rhag-ymgynghoriad â phartneriaid y Tasglu a rhanddeiliaid eraill wedi dylanwadu ar y cynigion. Yn ystod yr ymgynghoriad ac wrth ddatblygu'r polisi, bydd partneriaid yn y Tasglu Diogelwch Tomenni Glo yn ein helpu hefyd i dreialu rhai o'r cynigion (gan ddatblygu ffordd gyson o wneud hynny) i nodi eu heffeithiolrwydd a'u heffaith.

Rydym am barhau â'r dull hwn o weithredu wrth ddatblygu deddfwriaeth sylfaenol.

Integreiddio

Mae diogelwch tomenni glo yn fater trawsbynciol i Lywodraeth Cymru, yn enwedig gan y gallai tirlithriad ar domen lo gael effaith negyddol ar dai, iechyd, cludiant, cyfleustodau, cynllunio a'r amgylchedd. Er enghraifft, gallai tirlithriad sy'n effeithio ar safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig (SoDdGA) gael effaith negyddol ar ein gallu i gyflawni'r ymrwymiad yn ein Rhaglen Lywodraethu i ystyried yr argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn.

Mae integreiddio yn ganolog i'n gwaith. Dau gynnig allweddol yn y Papur Gwyn yw bod awdurdod goruchwyllo yn trefnu asesiad o beryglon, a fydd yn pennu categori pob tomen. Bydd categori tomen yn penderfynu pwy fydd yn gyfrifol am y domen a pha archwiliadau y bydd angen eu cynnal ac unrhyw ofynion cynnal a chadw.

Wrth ddatblygu'r asesiad o beryglon a'r categorïau, rydym wedi gweithio gyda chydweithwyr i ystyried effaith bosibl tirlithriad tomen lo ar dderbynleoedd fel tai, ysgolion, ysbytai, ffyrdd, rheilffyrdd, safleoedd treftadaeth, afonydd, cynefinoedd a choedwigoedd gan integreiddio hynny â'r modd y penderfynir ar lefel perygl ac felly categori tomen.

Ochr yn ochr â hyn, rydym wedi gweithio gyda'n partneriaid yn y Tasglu, yr Awdurdod Glo ac awdurdodau lleol i ddatblygu syniadau cyn llunio'r Papur Gwyn a sicrhau dull cydgysylltiedig sy'n cyfrannu at ddiogelu'r cyhoedd ac sy'n gymesur â lefel y peryglon.

Cyfranogiad

Hwn fydd yr ail ymgynghoriad ar gynigion ar drefn newydd ar gyfer rheoli diogelwch tomenni glo. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad cyntaf yn haf 2021 gan Gomisiwn y Gyfraith i fwydo ei adolygiad (y gofynnwyd amdano gan Lywodraeth Cymru). Mae cynigion y Papur Gwyn yn tynnu ar ymgynghoriad Comisiwn y Gyfraith a'r argymhellion yn ei adroddiad terfynol.

Mae gan Gymru hanes glofaol balch ac mae tomenni glo yn waddol o'r gorffennol diwydiannol hwn. Mae rheoli'r asedau diwydiannol hyn yn neilltuoel o bwysig i'r cymunedau sy'n byw ac yn gweithio gerllaw iddynt. Rydym wrthi'n trafod â chymunedau ynghylch sut i reoli ac adfer tomenni glo nas defnyddir a bydd hynny'n parhau.

Crynodeb o'r Cynigion

Mae'r Papur Gwyn yn nodi ein bwriad i gyflwyno yn y lle cyntaf, drwy ddeddfwriaeth sylfaenol, drefn newydd ar gyfer rheoli tomenni glo nas defnyddir. Efallai y gellir ehangu'r ddeddfwriaeth yn y dyfodol i gynnwys tomenni mwyngloddio eraill.

Diben bil o'r fath fydd cyflwyno trefn gyson, cymesur a gorfodadwy ar gyfer rheoli, monitro a goruchwylio tomenni glo nas defnyddir. Er mwyn sicrhau bod y drefn yn hyblyg, yn gyfredol ac yn ymatebol, rhoddir pwerau i Weinidogion Cymru i gyflwyno is-ddeddfwriaeth i bennu a diwygio'r hyn y bydd angen ei asesu ac adrodd arno.

Dyma'r prif gynigion yn y Papur Gwyn:

- Sefydlu awdurdod goruchwylio newydd - Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Bydd yn gyfrifol am oruchwylio a sicrhau cydymffurfiaeth â'r drefn reoli newydd;
- Llunio cofrestr genedlaethol newydd o asedau sy'n cynnwys data unffurf, cydlynol a chyfredol. Bydd hynny'n hanfodol er mwyn cyflwyno trefn gyson, cynhwysfawr ac effeithiol ar gyfer rheoli tomenni glo nas defnyddir;
- Categorioidio'r holl domenni drwy asesu lefel perygl y domen a'i heffaith bosibl ar dderbynleoedd. Ar sail yr asesiad o beryglon, cynhyrchu cynllun rheoli sy'n briodol i lefel y perygl ar gyfer pob tomen;
- Dull dwy haen o gynnal archwiliadau yn y fan a'r lle o domenni. Bydd yr archwiliadau'n adlewyrchu categori'r domen a pha mor aml y bydd angen eu cynnal;
- Gwaith cynnal a chadw fel a nodir mewn cynllun rheoli, cytundeb cynnal a chadw neu fel y gwelwyd sydd ei angen mewn archwiliad;
- Pwerau gorfodi newydd i sicrhau cydymffurfiaeth â'r drefn, gan gynnwys hawliau mynediad, cosbau sifil a throeddol a hawl i apelio.

Effaith

Asesiad drafft o effeithiau cynigion y Papur Gwyn yw hwn. Rydym yn croesawu sylwadau ar yr effeithiau a nodwyd, y dystiolaeth a gyflwynwyd ac unrhyw feysydd nad ydym wedi'u hystyried eto.

Un o'r cynigion yn y Papur Gwyn yw'r posibilrwydd o estyn y drefn i domenni sborion eraill. Er mwyn gallu asesu effaith lawn y drefn, gan gynnwys tomenni sborion eraill heblaw am lo, bydd angen casglu, trefnu a sicrhau ansawdd llawer iawn o ddata (ein hamcangyfrif presennol yw bod dros 20,000 o domenni sborion eraill yng Nghymru). Bydd estyn y drefn i'r grŵp ehangach hwn o domenni yn effeithio ar ei chost a'i manteision. Nid yw'r wybodaeth hon wedi'i chasglu gan fod ein prif sylw wedi bod ar domenni glo nas defnyddir. Cynigir cynnal ymarfer cwmpasu i asesu maint yr ystâd tomenni sborion eraill ac i asesu'r effeithiau dilynol.

Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol llawn yn cael ei gynnal i ddadansoddi'r costau a'r manteision a byddwn hefyd yn ystyried yr adborth i'r Papur Gwyn a'r ymgysylltu a fu a'u hychwanegu at yr IIA terfynol ar gyfer bil.

Caiff yr asesiad o'r effeithiau ei adolygu a'i ddiweddarau ar gyfer y bil y bwriedir ei gyflwyno yn ystod y Senedd hon. Bydd yr asesiad pellach yn seiliedig ar yr ymatebion i'r Papur Gwyn. Pan gynigir is-ddeddfwriaeth yn y bil, asesir yr effeithiau eto.

Costau ac Arbedion

Nid oes unrhyw gostau uniongyrchol yn deillio o'r ddogfen ymgynghori hon gan mai deddfwriaeth sylfaenol yw'r ffocws. Bydd costau ac arbedion y cynigion yn cael eu hasesu fel rhan o'r Dadansoddiad Cost a Budd a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, a gyhoeddir yr un pryd â Bil Diogelwch Tomenni Glo (Cymru).

Mecanwaith

Y cynnig yw cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol. Caiff Asesiad Effaith Rheoleiddiol ac Asesiad Effaith Integredig eu cynnal gyda bil yn y dyfodol.

CASGLIAD

Sut mae'r bobl a fydd fwyaf tebygol o deimlo effeithiau'r cynnig wedi cael cyfrannu at ddatblygu'r cynnig?

Ym mis Mehefin 2021, cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith ei bapur ymgynghori '*Rheoleiddio Diogelwch Tomenni Glo yng Nghymru*'. Daeth dros 70 o ymatebion i law, gan nifer o grwpiau rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys awdurdodau lleol, peirianwyr, cwmnïau cyfleustodau, contractwyr ac unigolion. Cynhaliodd Comisiwn y Gyfraith nifer o gyfarfodydd ymgynghori unigol gyda phartïon â diddordeb. Cyn cyhoeddi'r ymgynghoriad, cynhaliodd hefyd nifer o gyfarfodydd cyn-ymgynghori gydag amrywiaeth o randdeiliaid. Cyfrannodd hynny at ddatblygu'r cynigion a ymgorfforwyd yn ei ddogfen ymgynghori⁴.

Mae argymhellion Comisiwn y Gyfraith wedi bwydo'r cynigion yn y Papur Gwyn.

Hefyd, trwy Dasglu Diogelwch y Tomenni Glo, dygwyd ynghyd yr awdurdodau perthnasol a fydd â rôl allweddol yn y drefn arfaethedig, yn enwedig awdurdodau lleol, a Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n rheoli'r ystâd tomenni glo fwyaf ar ran Gweinidogion Cymru. Mae cyfraniad y sefydliadau hyn a'r Awdurdod Glo a chyn hynny, argymhellion Comisiwn y Gyfraith, at ddatblygu cynigion y Papur Gwyn wedi bod yn amhrisiadwy.

Byddwn yn cynnal rhaglen ymgysylltu yn ystod ymgynghoriad y Papur Gwyn, a fydd yn ceisio casglu barn y rhai fydd fwyaf tebygol o deimlo effeithiau'n cynigion. Bydd yr ymatebion i ymgynghoriad y Papur Gwyn yn llywio ein cynigion polisi a'n cynlluniau deddfwriaethol.

Rydym am glywed syniadau unrhyw grwpiau sy'n cynrychioli'r rhai y gallai ein cynigion effeithio arnynt – yn enwedig y rhai â nodweddion gwarchoddedig, pobl ifanc a grwpiau Cymraeg perthnasol – i'w trafod ymhellach yn ystod y cyfnod ymgynghori ac wrth ddatblygu deddfwriaeth yn y dyfodol.

⁴ [Law Commission Documents Template](#)

Beth yw'r effeithau mwyaf – negyddol a phositif?

- **Osgoi, lleihau neu liniaru effeithiau negyddol?**

Nod cynigion y Papur Gwyn yw sicrhau bod tomenni glo nas defnyddir yn cael eu rheoli'n effeithiol ac yn gymesur a lliniaru canlyniadau sylweddol tirlithriadau.

Mae ein cynigion yn ceisio lleihau'r tebygolrwydd y bydd tirlithriadau ar domenni glo yn digwydd. Gall tirlithriadau beryglu bywyd, cael effaith economaidd a chymdeithasol ar gymunedau ac achosi difrod amgylcheddol, gan gynnwys colli bioamrywiaeth.

Ar hyn o bryd, amcangyfrifir y bydd yn costio tua £20 miliwn i ddelio â phob agwedd ar waith adfer tirlithriad Tylorstown. Pan fu tirlithriad ar domen lo yng Nglofa Hatfield yn Ne Swydd Efrog yn 2013, bu'n rhai cau'r rheilffordd am 6 mis a chostiodd y gwaith adfer £65 miliwn.

Nod y cynigion ar gyfer cynnal archwiliadau a'r gofynion ar gyfer cynnal gwaith cynnal a chadw ar domen yw lleihau'r posibilrwydd o dirlithriadau ac felly osgoi'r costau economaidd sy'n gysylltiedig â nhw, a allai olygu torri rheilffyrdd a gwerth miliynau o bunnoedd o waith adfer. Gall archwiliadau a gwaith cynnal a chadw rheolaidd helpu i nodi unrhyw broblemau'n fuan er mwyn gallu mynd i'r afael â hwy cyn gynted â phosibl, gan leihau'r costau posibl all ddeillio pan fydd tomen yn dymchwel.

O ran yr amgylchedd, mae llawer o'r 2,500 o domenni glo yn gartref i ecosystemau ffyniannus yn ogystal â chynnal cynefinoedd a bywyd gwyllt o bwys lleol, rhanbarthol a chenedlaethol sylweddol. Ar hyn o bryd mae 99 o domenni glo yn Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a 32 yn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig. Felly, byddai dirlithriad ar domen yn cael effaith negyddol ar fioamrywiaeth Cymru. Bydd rheoli tomenni'n well yn helpu i leihau'r tebygolrwydd o dirlithriadau ac felly'n lleihau'r risg o gael effaith ar ecosystemau, cynefinoedd a bywyd gwyllt.

Mae llawer o'r tomenni sydd wedi'u nodi wedi'u lleoli yn y 10% o ardaloedd sydd fwyaf difreintiedig yng Nghymru, yn ôl Mynegeion Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC). Drwy greu trefn reoli fwy cadarn i wneud tomenni glo yn ddiogelo, er i'r afael hefyd â'r anghydraddoldeb a'r problemau cyfiawnder cymdeithasol a brofir yn y cymunedau hyn.

Mynegodd ymatebwyr i bapur ymgynghori Comisiwn y Gyfraith bryderon am yr effaith negyddol y gallai tomenni glo ei chael ar brisiau eiddo a thaliadau yswiriant. Mae dadansoddiad economaidd llawn yn cael ei gynnal ac mae dogfen gryno wedi'i chynnwys yn y Papur Gwyn. Mae ein dadansoddiad cychwynol yn dangos nad yw'n ymddangos bod tirlithriadau blaenorol wedi cael effaith negyddol hirdymor amlwg a pharhaus ar brisiau tai. Fodd bynnag, dylai ein trefn archwilio a chynnal a chadw arfaethedig liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar daliadau yswiriant a phrisiau eiddo.

Mae tua 85% o'r holl domenni glo nas defnyddir a mwy na 90% o'r tomenni statws uwch i gyd yng nghymoedd y De. Mae hyn yn cael effaith anghymesur ar nifer fach o awdurdodau lleol. Un o amcanion y cynigion yw cydbwyso'r effaith anghymesur ar yr awdurdodau lleol hyn drwy gynnig mai'r awdurdod goruchwyllo sy'n rheoli'r tomenni statws uchaf.

Mae rhai daliadau tir yn fach a gallai gorfod rheoli tomen fod yn faich sylweddol ar berchennog y tir. Er mwyn helpu i liniaru'r effaith hon, mae'r Papur Gwyn yn cynnig rhoi'r pŵer i'r awdurdod goruchwyllo ddynodi tomen ar sail ei baich a threfnu ar gyfer ei rheoli.

Mae gwahaniaethau sylweddol rhwng tomenni, yn enwedig rhwng tomenni statws uwch â rhai statws is. Mae'r cynigion yn y Papur Gwyn yn ceisio cyflwyno ymateb cymesur drwy ddarparu trefn symlach ar gyfer delio â thomenni statws is, fydd yn cynnwys mecanwaith hunan-adrodd os bydd perchennog tomen statws isel yn gweld unrhyw newid yn statws y domen. Cynigiwyd gofynion manylach a llym ar gyfer tomenni statws uwch.

Rydym yn rhagweld effaith gadarnhaol sylweddol ar y rhai sy'n byw ar bwys tomenni glo nas defnyddir, yn enwedig y rhai sy'n byw ger tomen statws uwch, yn sgil lleihau'r risg o dirlithriadau yn y dyfodol.

Rydym wedi ystyried y pum ffordd o weithio a'r saith nod llesiant a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wrth ddatblygu'r cynigion hyd yma a byddwn yn parhau i wneud hynny, gan gynnwys drwy weithgarwch ymgysylltu yn ystod y cyfnod ymgynghori ar y Papur Gwyn.

Yng ngoleuni'r effeithiau a nodwyd, sut bydd y cynnig:

- **Yn cynyddu'r cyfraniad at ein hamcanion lles a'r saith nod llesiant**

Nod y cynigion yw lliniaru'r effeithiau negyddol a nodwyd, drwy leihau'r tebygolrwydd y bydd tirlithriadau'n digwydd yn y dyfodol ar domenni glo nas defnyddir. Gallai hynny arwain at ganlyniadau sylweddol i gymunedau a seilwaith.

Mae'r cynigion yn cyfrannu at lawer o'r amcanion llesiant drwy leihau'r tebygolrwydd o dirlithriadau yn y dyfodol gan liniaru drwy hynny yr effeithiau negyddol a nodwyd a allai lesteirio'r gwaith o sicrhau amcanion llesiant.

Nod y cynigion ar gyfer rheoli tomenni glo yw creu amgylchedd mwy diogel i gymunedau gerllaw tomenni glo, yn enwedig tomenni statws uwch. O'r herwydd, bydd tomenni glo sy'n cael eu rheoli'n fwy effeithiol yn cyfrannu at yr amcan llesiant '*Gwneud ein dinasoedd, ein trefi a'n pentrefi yn lleoedd gwell fyth i fyw a gweithio ynddynt*'.

Gan y gall tirlithriadau gael effaith sylweddol ar fioamrywiaeth, mae lleihau'r tebygolrwydd y byddant yn digwydd yn golygu y caiff bioamrywiaeth barhau i ffynnu ar yr asedau hyn. Yn ogystal, gall tirlithriad ollwng llawer iawn o falurion y bydd yn rhaid o bosibl eu codi a'u symud (llithrodd 60,000 tonn o falurion i'r afon yn sgil tirlithriad Tylorstown). Gall cael lorïau mawr at falurion mewn ardaloedd anhygyrch a chludo'r malurion hynny i safle arall, olygu allyriadau carbon sylweddol. Bydd y cynigion yn helpu i *'Ymgorffori ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn'*.

Rydym hefyd yn cynnig bod yr awdurdod goruchwyllo yn defnyddio technoleg i fonitro tomenni ac mae cyfres o dreialon yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd i nodi'r dechneg fonitro fwyaf priodol ar gyfer gofynion penodol tomenni gwahanol. Gall technoleg ddarparu gwybodaeth hanfodol am symudiadau tir a dŵr ac mae'n ffordd o ddiogelu'r drefn at y dyfodol wrth i'r hinsawdd newid. Yn ogystal, efallai bydd angen sgiliau newydd ac o bosibl datblygu technolegau newydd i gyflawni'r cynnig hwn gan felly cyfrannu at yr amcan *'Adeiladu economi gryfach a gwyrddach wrth inni ddatgarboneiddio cymaint â phosibl'*.

Cymru Lewyrchus – bydd ein cynigion yn gofyn am wella sgiliau'r gweithlu er mwyn gallu cynnal asesiadau, archwiliadau a'r gwaith cynnal a chadw arfaethedig.

Cymru Gydnherth – drwy leihau'r tebygolrwydd o dirlithriadau a lliniaru unrhyw effeithiau negyddol y gallai tirlithriad eu cael ar ecosystemau cydnherth.

Cymru Iachach – mae ein cynigion yn helpu i ddarparu amgylchedd iachach a mwy diogel i fyw ynddo, a allai hefyd helpu i leihau unrhyw straen a phryder a brofir gan bobl am eu bod yn byw yn agos at domen lo.

Cymru sy'n fwy Cyfartal – mae tomenni'n cael mwy o effaith ar rai ardaloedd o Gymru nac eraill am fod y rhan fwyaf ohonyn nhw yn rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig. Mae'r cynigion yn helpu i fynd i'r afael â hyn am mai'r awdurdod goruchwyllo fydd yn gyfrifol am y tomenni statws uchaf. Hefyd, rhoddir mwy o wybodaeth i'r cyhoedd am leoliadau tomenni.

Cymru o Gymunedau Cydlynus – nod ein cynigion yw sicrhau cymunedau mwy diogel drwy leihau'r tebygolrwydd o dirlithriadau a pheryglon eraill sy'n gysylltiedig â thomenni glo.

Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu – o ran y Gymraeg nid ydym yn rhagweld unrhyw effeithiau cadarnhaol penodol, ond ni fydd unrhyw effeithiau negyddol chwaith. Gan fod yna rai tomenni glo mewn safleoedd treftadaeth a bod rhai ohonynt eu hunain o bwys treftadol, mae'r cynigion yn cyfrannu at hyn drwy sicrhau bod y safleoedd yn cael eu rheoli i leihau unrhyw effeithiau negyddol a allai godi yn sgil tirlithriad.

Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang – drwy leihau'r tebygolrwydd o dirlithriadau a thrwy hynny lleihau'r angen i gludo malurion, a all effeithio'n negyddol ar allyriadau

byd-eang. Yn ogystal, rydym o'r farn bod ein cynigion a'n ffordd o weithio yn arloesol a byddant yn debygol o arwain at arfer da newydd y byddem yn gallu ei ledaenu i helpu gwledydd tramor i reoli'u tomenni.

Sut y bydd effaith y cynnig yn cael ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo fynd yn ei flaen a dod i ben?

Mae'r asesiad effaith integredig hwn yn cael ei gyhoeddi gyda Phapur Gwyn.

Bydd yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu hadolygu a'u defnyddio i fireinio'r cynigion ymhellach fel rhan o'r broses o ddatblygu deddfwriaeth yn y maes hwn.

Bydd asesiad effaith integredig terfynol ac Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cael eu cyhoeddi i gyd-fynd ag unrhyw fil yn y dyfodol.

DATGANIAD

Datganiad

Rwy'n fodlon fod effaith y camau a gynigir wedi cael eu hasesu a'u cofnodi'n foddhaol.

Enw'r Uwch Swyddog Cyfrifol / Dirprwy Gyfarwyddwr: **Dr Andy Fraser, Dirprwy Gyfarwyddwr, Dŵr, Llifogydd a Diogelwch Tomenni Glo**

Adran: **Newid yr Hinsawdd a Materion Gwledig**

Dyddiad: 13 Ebrill 2022

B. ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

1. Disgrifiwch ac esboniwch effaith y cynnig ar bobl sydd â nodweddion gwarchoddedig fel y'u disgrifir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod 'Dyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol' ar awdurdodau cyhoeddus Cymru i roi 'sylw dyledus' i'r angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon, yn ogystal ag i hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a'r rheini nad ydynt.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010⁵ yn amddiffyn pobl rhag cael eu gwahaniaethu oherwydd y nodweddion gwarchoddedig sydd gan bawb. Mae'n amddiffyn pobl rhag gwahaniaethu yn y gweithle, pan fyddant yn defnyddio busnesau a sefydliadau eraill sy'n darparu gwasanaethau ac wrth gysylltu â chyrrff cyhoeddus.

Mae'r cynigion yn y Papur Gwyn ar Ddiogelwch Tomenni Glo yn cyflwyno trefn newydd ar gyfer rheoli'r holl domenni glo nas defnyddir, gan ddarparu ar gyfer monitro, cynnal a chadw a goruchwylio tomenni glo a mesurau gorfodi ar gyfer y rheini nad ydynt yn cydymffurfio. Mae'r cynigion yn ei gwneud yn ofyn ar yr awdurdod goruchwylio newydd, awdurdodau lleol a pherchnogion tomenni glo nas defnyddir i gymryd camau penodol gan ddibynnu ar gategori'r domen. Yr awdurdod goruchwylio sy'n gyfrifol am y tomenni statws uchaf, gan ymdrin â baich posibl y tomenni hyn ar berchnogion. Felly, bydd ein cynigion yn effeithio ar gyrff yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat, yn ogystal ag unigolion. Er nad ydym yn rhagweld unrhyw effaith uniongyrchol o ran hyrwyddo cydraddoldeb, nid ydym yn credu y caiff y cynigion hyn effaith negyddol ar bobl â nodwedd warchoddedig.

Mae 85% o'r tomenni glo nas defnyddir yng nghymoedd y De, yn rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Credwn y caiff y cynigion hyn effaith gadarnhaol ar ddiogelwch pob dinesydd, p'un a oes ganddynt nodweddion gwarchoddedig ai peidio, gan y byddant yn lleihau'r tebygolrwydd o dirlithriadau a'u heffeithiau cysylltiedig megis marwolaethau; anafiadau; problemau iechyd corfforol a meddyliol tymor byr a hir; difrod i dai, ysgolion a chanolfannau iechyd; tarfu ar drafnidiaeth a chyfleustodau; llygredd a dinistrio'r amgylchedd.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff y sector cyhoeddus, gan gynnwys awdurdodau lleol yng Nghymru, gydymffurfio â dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus. Byddem yn disgwyl i'r awdurdod goruchwylio newydd fel Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, ysgwyddo'r ddyletswydd hon hefyd.

⁵ <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/introduction>

Nid oes gennym ddata ynghylch oedran neu broffil economaidd-gymdeithasol perchnogion tomenni o ddaw o fewn cwmpas y cynigion yn y Papur Gwyn.

Hoffem glywed gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad sy'n credu bod effeithiau eraill nad ydym wedi'u nodi.

Yn dilyn yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn, byddwn yn edrych ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad ac yn gweithio i fireinio ein cynigion cyn cyflwyno newidiadau a chyflwyno deddfwriaeth yn y maes hwn. Yn ystod y broses hon, byddwn yn parhau i adolygu'r asesiad effaith hwn a'i ddiwygio wrth i'n cynigion gael eu mireinio ymhellach.

◆ ***Beth yw'r effeithiau negyddol posibl ar bobl mewn grwpiau gwarchoddedig ac ar y rheini sy'n byw mewn aelwydydd incwm isel a sut byddwch chi'n eu lliniaru?***

Mae cynigion y Papur Gwyn yn cyflwyno trefn reoli newydd a fydd yn gofyn am fonitro a rheoli rhagweithiol ar domenni glo nas defnyddir yng Nghymru. Gall trefn reoli effeithiol leihau'r tebygolrwydd o dirlithriadau ac felly lliniaru unrhyw effeithiau negyddol (fel malurion o domen all ddinistrio eiddo neu gyfleustod, cau cysylltiadau trafndiaeth neu afonydd) ar gymunedau gerllaw'r tomenni hyn.

Mae llawer o'r tomenni sydd wedi'u nodi mewn cymunedau sydd ymhlith y 10% mwyaf difreintiedig yn ôl Mynegeion Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC), felly rhagwelwn y bydd gwneud tomenni glo yn fwy diogel yn cael effaith gadarnhaol ar y cymunedau hyn. Mynegodd ymatebwyr i bapur ymgynghori Comisiwn y Gyfraith eu pryderon am effaith negyddol bosibl tomenni glo ar brisiau eiddo a thaliadau yswiriant. Mae dadansoddiad economaidd llawn yn cael ei gynnal ac mae crynodeb wedi'i gynnwys yn y Papur Gwyn. Mae ein dadansoddiad cychwynnol yn dangos nad yw tirlithriadau yn y gorffennol wedi cael effaith negyddol hirdymor amlwg a pharhaus i bob golwg ar brisiau tai. Fodd bynnag, dylai ein trefn archwilio a chynnal a chadw arfaethedig hefyd liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar daliadau yswiriant a phrisiau eiddo.

Gan ddibynnu ar gategori'r domen, rhoddir dyletswyddau gorfodol ar berchnogion tomenni, megis pa mor aml y bydd angen archwilio tomen a sicrhau bod gwaith cynnal a chadw'n cael ei wneud. Er mwyn lleihau'r baich, rydym wedi cynnig y bydd y tomenni statws uchaf (mwy costus) yn dod yn gyfrifoldeb yr awdurdod goruchwyllo a bydd y tomenni â'r statws ail uchaf yn dod o dan reolaeth yr awdurdodau lleol (ac eithrio'r rheini sy'n cael eu rheoli gan CNC neu'r Awdurdod Glo). Yn ogystal, os bydd rheoli tomen â statws is yn dod yn faich sylweddol ar berchennog, rydym yn cynnig y dylai'r awdurdod goruchwyllo ei ddynodi a phenderfynu pwy fyddai orau i'w oruchwyllo.

Nid ydym yn credu y caiff y cynigion effeithiau negyddol ar unigolion ar sail eu nodweddion gwarchoddedig.

Cofnod o'r Effeithiau yn ôl Nodweddion Gwarchoddedig:

Nodwedd neu Grŵp Gwarchoddedig	Beth yw effeithiau positif neu negyddol y cynnig?	Rhesymau am eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)	Sut byddwch chi'n lliniaru'r effeithiau?
Oed (meddylwch am grwpiau oed gwahanol)	Ni ragwelir y caiff y cynigion hyn effaith negyddol ar oed.	<p>Bydd cynigion y Papur Gwyn ar Ddiogelwch Tomenni Glo yn dod â budd cyffredinol trwy sefydlu trefn well ar gyfer rheoli diogelwch tomenni glo, gan wneud cymunedau yn fwy diogel.</p> <p>Os bydd perchennog tomen yn perthyn i'r categori hwn, bydd yr awdurdod goruchwylio yn rhoi cymorth, cyngor ac arweiniad.</p>	<p>Nid oes unrhyw effeithiau negyddol ar y grŵp hwn sy'n byw mewn cymuned ar bwys tomen lo.</p> <p>O ran perchnogion preifat tomenni glo nas defnyddir, rydym yn cynnig mai'r awdurdod goruchwylio ddylai fod yn gyfrifol am y tomenni statws uchaf ac awdurdodau lleol am y tomenni â'r statws ail uchaf. Os yw'r domen yn faich drom ar berchennog, gall yr awdurdod goruchwylio ei ddynodi a gwneud trefniadau ar gyfer ei reoli.</p>
Anabledd (ystyriwch y model cymdeithasol o anabledd ⁶ a sut	Ni ragwelir y caiff y cynigion hyn effaith negyddol ar bobl ag anabledau.	Bydd cynigion y Papur Gwyn ar ddiogelwch Tomenni Glo yn dod â budd i bawb trwy sefydlu trefn well ar	Nid oes unrhyw effeithiau negyddol ar y grŵp hwn sy'n byw

⁶ Mae Llywodraeth Cymru'n defnyddio'r model cymdeithasol o anabledd. Rydym yn deall nad eu namau sy'n gwneud pobl anabl yn anabl ond y rhwystrau y mae cymdeithas yn eu rhoi yn eu ffordd. Y ffordd orau o wella

<p>y gallai'ch cynnig, yn anfwriadol, greu rhwystrau, neu y gellid ei ddefnyddio'n rhagweithiol i chwalu rhwystrau sy'n anablu pobl sydd â namau gwahanol)</p>		<p>gyfer rheoli diogelwch tomen lo.</p> <p>Os bydd perchennog tomen yn perthyn i'r categori hwn, bydd yr awdurdod goruchwyllo yn rhoi cymorth, cyngor ac arweiniad.</p>	<p>mewn cymuned ar bwys tomen lo.</p> <p>O ran perchnogion preifat tomenni glo nas defnyddir, rydym yn cynnig mai'r awdurdod goruchwyllo ddylai fod yn gyfrifol am y tomenni statws uchaf ac awdurdodau lleol am y tomenni â'r statws ail uchaf. Os yw'r domen yn faich drom ar berchennog, gall yr awdurdod goruchwyllo ei ddynodi a gwneud trefniadau ar gyfer ei reoli.</p>
<p>Ailbennu rhywedd (wrthi'n trawsnewid a Phobl Drawsryweddol)</p>	<p>Ni ragwelir y caiff y cynigion hyn effaith negyddol ar bobl sydd wedi ailbennu eu rhywedd neu sy wrthi'n gwneud.</p>	<p>Bydd cynigion y Papur Gwyn ar ddiogelwch Tomenni Glo yn dod â budd i bawb trwy sefydlu trefn well ar gyfer rheoli diogelwch tomen lo.</p>	<p>Nid oes unrhyw effeithiau negyddol ar y grŵp hwn oherwydd y cynigion hyn.</p>
<p>Beichiogrwydd a mamolaeth</p>	<p>Ni ragwelir y caiff y cynigion hyn effaith negyddol ar bobl feichiog, sydd wedi'u mabwysiadu neu sydd ar gyfnod tadolaeth/mamolaeth.</p>	<p>Bydd cynigion y Papur Gwyn ar ddiogelwch Tomenni Glo yn dod â budd i bawb trwy sefydlu trefn well ar gyfer rheoli diogelwch tomen lo.</p>	<p>Nid oes unrhyw effeithiau negyddol ar y grŵp hwn oherwydd y cynigion hyn.</p>

ansawdd i bobl anabl yw trwy sicrhau bod eich cynnig yn diddymu'r rhwystrau hyn, yn hytrach na'u creu. I ddysgu mwy, chwiliwch am 'y model cymdeithasol' yn y fewnryd.

Hil (gan gynnwys lleiafrifoedd ethnig gwahanol, Sipsiwn a Theithwyr a Mewnfudwyr, Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid)	Ni ragwelir y caiff y cynigion hyn effaith negyddol ar hil.	Bydd cynigion y Papur Gwyn ar ddiogelwch Tomenni Glo yn dod â budd i bawb trwy sefydlu trefn well ar gyfer rheoli diogelwch tomen lo.	Nid oes unrhyw effeithiau negyddol ar y grŵp hwn oherwydd y cynigion hyn.
Crefydd, cred a heb gred	Ni ragwelir y caiff y cynigion hyn effaith negyddol ar Grefydd, cred na'r rheini heb gred.	Bydd cynigion y Papur Gwyn ar ddiogelwch Tomenni Glo yn dod â budd i bawb trwy sefydlu trefn well ar gyfer rheoli diogelwch tomen lo.	Nid oes unrhyw effeithiau negyddol ar y grŵp hwn oherwydd y cynigion hyn.
Rhyw / Rhywedd	Ni ragwelir y caiff y cynigion hyn effaith negyddol ar ryw na/neu rywedd.	Bydd cynigion y Papur Gwyn ar ddiogelwch Tomenni Glo yn dod â budd i bawb trwy sefydlu trefn well ar gyfer rheoli diogelwch tomen lo.	Nid oes unrhyw effeithiau negyddol ar y grŵp hwn oherwydd y cynigion hyn.
Cyfeiriadedd rhywiol (Lesbiaid, Hoywon a Phobl Ddeurywiol)	Ni ragwelir y caiff y cynigion hyn effaith negyddol ar gyfeiriadedd rhywiol.	Bydd cynigion y Papur Gwyn ar ddiogelwch Tomenni Glo yn dod â budd i bawb trwy sefydlu trefn well ar gyfer rheoli diogelwch tomen lo.	Nid oes unrhyw effeithiau negyddol ar y grŵp hwn oherwydd y cynigion hyn.
Priodas a Phartneriaeth Sifil	Ni ragwelir y caiff y cynigion hyn effaith	Bydd cynigion y Papur Gwyn ar ddiogelwch Tomenni Glo yn dod â budd i bawb trwy	Nid oes unrhyw effeithiau negyddol ar y

	negyddol ar briodas na phartneriaethau sifil.	sefydlu trefn well ar gyfer rheoli diogelwch tomen lo.	grŵp hwn oherwydd y cynigion hyn.
Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed	Ni ragwelir y caiff y cynigion hyn effaith negyddol ar blant na phobl ifanc.	Bydd cynigion y Papur Gwyn ar ddiogelwch Tomenni Glo yn dod â budd i bawb trwy sefydlu trefn well ar gyfer rheoli diogelwch tomen lo. Bydd y cynigion yn hybu nifer o erthyglau'r UNCRC (6,12,17,27).	Nid oes unrhyw effeithiau negyddol ar y grŵp hwn oherwydd y cynigion hyn.
Aelwydydd incwm isel	Ni ragwelir y caiff y cynigion hyn effaith negyddol ar aelwydydd incwm isel.	Bydd cynigion y Papur Gwyn ar ddiogelwch Tomenni Glo yn dod â budd i bawb trwy sefydlu trefn well ar gyfer rheoli diogelwch tomen lo. Sylwer hefyd bod y rhan fwyaf o'r tomenni glo mewn ardaloedd difreintiedig. Felly bydd unrhyw welliannau i wneud y tomenni hyn yn fwy diogel ac i'r amgylchedd yn dod â budd i deuluoedd incwm isel, gan gynnwys lleihau'r perygl o dirlithriadau a llifogydd yn yr ardal. Os bydd perchennog tomen yn perthyn i'r categori hwn, bydd yr awdurdod goruchwylio	Nid oes unrhyw effeithiau negyddol ar y grŵp hwn oherwydd y cynigion hyn. Mae'n bosibl y bydd archwilio a rheoli tomenni glo nas defnyddir yn helpu i wella'r gymuned a lleihau unrhyw effeithiau ar brisiau eiddo a thaliadau yswiriant. O ran perchnogion preifat tomenni glo nas defnyddir, rydym yn cynnig mai'r awdurdod goruchwylio ddylai fod yn gyfrifol am y tomenni statws uchaf ac awdurdodau lleol am y tomenni â'r statws ail

		yn rhoi cymorth, cyngor ac arweiniad.	uchaf. Os yw'r domen yn faich drom ar berchennog, gall yr awdurdod goruchwyllo ei ddynodi a gwneud trefniadau ar gyfer ei reoli.
--	--	---------------------------------------	--

Confensiynau Hawliau Dynol a'r Cenhedloedd Unedig

Ydych chi'n credu y caiff y polisi hwn effaith bositif neu negyddol ar hawliau dynol pobl?

*(Darllenwch bwynt 1.4 o Ganllawiau'r EIA am ragor o wybodaeth am **Hawliau Dynol a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig**).*

Fel a argymhellir yn adroddiad Comisiwn y Gyfraith, rydyn yn cynnig hawliau mynediad hefyd ar gyfer:

- archwilio, cynnal profion neu waith samplu ar domen lo hysbys neu dybiedig;
- cynnal, archwilio neu oruchwyllo gwaith cynnal a chadw neu adfer neu i osod a monitro offer ar domen lo; a
- mynd ar domen lo at y dibenion uchod.

Rydym yn cydnabod y gallai hyn gael effaith negyddol ar hawliau dynol pobl, ac rydym yn cynnig y dylid rhoi cyfnod o rybudd, oni bai bod angen mynd ar dir mewn argyfwng. Bydd defnyddio'r pŵer hwn yn ddewis olaf wrth i ni geisio gweithio gyda pherchnogion i gydbwyso eu hawliau ac anghenion y cyhoedd.

Ymdrinnir â'r effaith o ran Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn Atodiad A.

D. SGRINIO'R ASESIAD O'R EFFAITH AR DDIOGELU DATA

Un o'r bylchau mawr yn y ddeddfwriaeth bresennol yw diffyg cofrestr ganolog o domenni glo segur, sy'n golygu nad oes cofnod canolog o leoliad yr holl domenni nac o'u statws o ran eu cynnal a'u cadw.

Cynigiodd Comisiwn y Gyfraith ei gwneud yn ofyn ar yr awdurdod goruchwylio newydd i lunio a chynnal cofrestr ganolog newydd o asedau. Byddai Gweinidogion Cymru'n rhagnodi'r lleiafswm y byddai rhestr o'r fath yn ei chynnwys mewn is-ddeddfwriaeth. Roedd cefnogaeth unfrydol bron i'r cynnig hwn.

Rydym wedi cynnwys cynnig yn ein Papur Gwyn i'r awdurdod goruchwylio lunio a chynnal cofrestr genedlaethol o asedau. Bydd y cynnig yn rhoi pŵer i'r awdurdod goruchwylio ddatblygu'r gofrestr asedau a'r awdurdod cyfreithlon i gasglu, lle bo hynny'n berthnasol, data personol cysylltiedig os yw'n ymwneud â dinesydd preifat sy'n berchennog neu'n rhan-berchennog ar domen.

Nod y gofrestr yw:

- Gwella'r broses o reoli risg drwy gasglu gwybodaeth gyson am unrhyw risgiau/peryglon sy'n gysylltiedig â thomen a'r gofynion rheoli ar gyfer pob tomen;
- Gwella penderfyniadau gyda gwybodaeth am leoliadau a statws tomennydd glo a pha mor agos ydynt at seilwaith hanfodol a/neu'r amgylchedd fel safleoedd dynodedig; a
- Gwella'r broses oruchwylio i sicrhau bod cysondeb yn y drefn drwyddi draw a bod archwiliadau a gwaith cynnal a chadw yn cael eu cynnal; a
- Bod yn dryloyw.

Mae'r cynigion yn nodi y dylai'r gofrestr gynnwys o leiaf y canlynol, a ragnodir gan Weinidogion Cymru mewn is-ddeddfwriaeth:

- Cyfeirnod unigryw;
- Enw'r domen;
- Lleoliad;
- Categori;
- Dyddiadau archwiliadau/arfarniadau;
- Adroddiad asesu;
- Adroddiadau archwilio/arfarnu;
- Cynllun rheoli; a
- Chytundebau cynnal a chadw.

Bydd elfen o'r gofrestr ar gael i'r cyhoedd. Bydd yn cynnwys y wybodaeth ganlynol: Enw/Rhif y domen; Lleoliad; Categori; Statws y perchennog (cyhoeddus neu breifat); ac amserlen archwilio.

Rydym wedi dechrau'r broses o ymgynghori â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) ac rydym am weithio gyda hi i ystyried yn llawn effeithiau ein cynigion wrth iddynt ddatblygu.

Bydd yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn yn llywio'r asesiad hwn, ac yn lliniaru unrhyw risgiau.

Bydd Asesiad Llawn o'r Effaith ar Ddiogelu Data yn cael ei gynnal i'w ystyried cyn cyflwyno'r Bil arfaethedig.

F. ASESIAD O'R EFFAITH AR FIOAMRYWIAETH

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn creu'r nod 'Cymru Gydnerth' - *Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).*'

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn cyflwyno dyletswydd adran 6, sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus 'gynnal ac ehangu bioamrywiaeth wrth arfer eu swyddogaethau mewn perthynas â Chymru cyn belled ag y bod hynny'n gyson â chyflawni eu swyddogaethau'n briodol.'

Mae Cynllun Gweithredu Adfer Natur Llywodraeth Cymru yn datgan ein huchelgais i wyrdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth, oherwydd ei gwerth cynhenid, ac i sicrhau manteision parhaol i gymdeithas. Mae'r cynllun yn cynnwys chwe amcan ar gyfer gwyrddroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth, y dylid eu defnyddio i helpu i ddatblygu ac arwain y gweithredu i gydymffurfio â dyletswydd adran 6.

Mae'r Papur Gwyn yn cynnig cyflwyno trefn newydd i ymdrin â'r waddol o domenni glo segur yng Nghymru drwy greu trefn ragweithiol newydd ar gyfer rheoli tomenni. Bydd yn cynnwys monitro parhaus (gydag thomenni statws uwch yn cael eu harchwilio'n amlach a manylach) a chynnal a chadw tomenni glo. Bydd angen cynllun rheoli ar bob tomen sy'n gymesur â lefel y risg i'w derbynleoedd (cymunedau, eiddo, seilwaith, ecosystemau, bioamrywiaeth a safleoedd diwylliannol).

Mae'r cynnydd a ragwelir yn effeithiau'r newid yn yr hinsawdd, fel y'u disgrifir yn Asesiad Cymru o Risgiau Newid Hinsawdd⁷ (CCRA3), yn golygu y bydd tirlithriadau'n fwy tebygol o ddigwydd, gan achosi niwed sylweddol i gymunedau, seilwaith hanfodol a'r amgylchedd, gan gynnwys bioamrywiaeth ar domenni.

Yn ogystal ag effeithiau posibl y newid yn yr hinsawdd ar domenni segur, mae llawer o'r 2,456 o domenni glo yng Nghymru yn gartref i ecosystemau ffyniannus yn ogystal â chynnal cynefinoedd a bywyd gwylt o bwys lleol, rhanbarthol a chenedlaethol sylweddol. Byddai tirlithriad ar domen yn cael effaith negyddol ar fioamrywiaeth Cymru. Gall rheoli tomenni'n well helpu i leihau'r tebygolrwydd o dirlithriadau ac felly lleihau'r risg o effeithio ar ecosystemau, cynefinoedd a bywyd gwylt. Nod ein cynigion yw lleihau'r tebygolrwydd o dirlithriadau yn y dyfodol a thrwy hynny, lleihau'r effeithiau negyddol hyn.

Ymgorffori bioamrywiaeth

- 1. Sut bydd ein cynnig yn gwneud bioamrywiaeth yn rhan annatod o'r broses benderfynu?**

⁷ Evidence for the third UK Climate Change Risk Assessment (CCRA3), Summary for Wales, 2021

- ♦ *Ydych chi wedi ystyried effeithiau a'r cyfleoedd positif ar gyfer gweithredu er lles bioamrywiaeth yn nechrau'r broses o feddwl am y prosiect neu ddylunio'r prosiect?*

Mae ein dadansoddiad o leoliad tomenni glo segur wedi darparu'r wybodaeth ganlynol yn Nhabl 1.

Dynodiad	Nifer o domenni
Gwarchodfa Natur Leol	28
Gwarchodfa Natur Genedlaethol	7
Ardal Gwarchodaeth Arbennig	3
Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol	20
Ardaloedd Cadwraeth Arbennig	32
Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig	99
Parc Cenedlaethol	69

Ar hyn o bryd, nid yw'r drefn interim ar gyfer categorreiddio tomenni glo segur (a ddatblygwyd i helpu i flaenoriaethu archwiliadau a gwaith cynnal a chadw) yn nodi bioamrywiaeth fel ffactor. Mae'r Papur Gwyn yn ceisio mynd i'r afael â hyn drwy gyflwyno dull newydd o asesu'r peryglon y gall tomen eu hachosi a'i heffaith ar dderbynleoedd.

Un cynnig allweddol yw bod yr awdurdod goruchwylio yn trefnu asesu peryglon. Bydd hynny'n fodd i bennu categori pob tomen. Mae categori tomen yn penderfynu pwy fydd yn gyfrifol am y domen ac am drefnu'r archwiliadau angenrheidiol ac unrhyw waith cynnal a chadw. Mae'r categori hefyd yn pennu maint y cynllun rheoli sydd ei angen ar gyfer tomen.

Wrth ddatblygu'r drefn asesu peryglon a chategorreiddio, rydym wedi gweithio gyda chydweithwyr i ystyried effaith bosibl tirlithriad ar dderbynleoedd fel tai, ysgolion, ysbytai, ffyrdd, rheilffyrdd, safleoedd treftadaeth, afonydd, cynefinoedd a choedwigoedd ac integreiddio hynny i'r ffordd y penderfynir ar lefel perygl ac felly categori tomen.

O ganlyniad, mae bioamrywiaeth yn cael ei mesur yng nghanam cyntaf y drefn reoli newydd, ac felly'n ystyriaeth wrth bennu categori'r domen, lefel a natur y gwaith monitro a maint y cynllun rheoli sydd ei angen. Mae angen cynllun manylach ar domen statws uwch, ac efallai y bydd angen cynnal archwiliad ecolegol arbenigol.

2. A yw'ch cynnig yn sicrhau bod bioamrywiaeth yn ystyriaeth yn y penderfyniadau busnes?

Byddwn yn ymgynghori ar ein cynigion yn y Papur Gwyn. Mae'r cynigion yn cynnwys gofyniad bod cynllun rheoli'n cael ei gynhyrchu ar gyfer pob tomen a bod yr awdurdod goruchwyllo yn trefnu bod trydydd partiön - awdurdodau lleol, perchnogion neu ymgynghorwyr – yn datblygu'r cynllun rheoli. Bydd Gweinidogion Cymru yn rhagnodi mewn is-ddeddfwriaeth y lleiafswm y caiff cynllun rheoli ei gynnwys. Bydd gofyn i bob parti sy'n llunio cynllun rheoli gydymffurfio â'r isafswm gofynnol. Rydym hefyd yn cynnig bod 'proffil tomen' yn cael ei lunio ar gyfer tomenni statws uwch, i gynnwys gwybodaeth ynghylch a yw'r domen wedi'i lleoli mewn safle dynodedig, safle treftadaeth neu wrth ymyl afon a gwybodaeth amgylcheddol/ecolegol allweddol arall.

Mae'r Papur Gwyn yn cynnig sefydlu corff cyhoeddus statudol newydd a fydd yn gorff cyhoeddus at ddibenion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 ac a fydd felly yn gorfod cydymffurfio â'r ddyletswydd datblygu cynaliadwy yn adran 3 y Ddeddf.

Tystiolaeth, dealltwriaeth a monitro gwell

3. Ydych chi wedi defnyddio'r dystiolaeth orau sy'n bod am fioamrywiaeth i lywio'r cynnig a'r asesiad hwn?

Rydym wedi defnyddio'r data am domenni glo i weld pa mor agos y mae'r tomenni glo i safleoedd dynodedig. Fodd bynnag, gwyddom hefyd fod tomenni glo yn gartref i ecosystemau ffyniannus yn ogystal â chynnal cynefinoedd a bywyd gwylt o bwys lleol, rhanbarthol a chenedlaethol sylweddol.

Rydym wedi trafod y mater hwn ag academyddion ac yn bwriadu casglu rhagor o wybodaeth yn ystod y broses ymgynghori. Byddwn yn croesawu barn rhanddeiliaid.

4. Ydych chi wedi defnyddio'r wybodaeth ddiweddaraf am y prif effeithiau ar fioamrywiaeth i wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth?

Nod y cynigion yn y Papur Gwyn sy'n ymwneud ag asesu peryglon a chynlluniau rheoli yw darparu gwybodaeth sy'n benodol i safle pob tomen.

5. A all eich cynnig gyfrannu at ein corff o wybodaeth am fioamrywiaeth?

Gall y cynigion yn y Papur Gwyn ynghylch asesu peryglon a chynlluniau rheoli gyfrannu drwy gasglu gwybodaeth sy'n benodol i safleoedd pob tomen.

Llywodraethu a chymorth i weithredu dros fioamrywiaeth

6. A all eich cynnig ein helpu i weithredu dros fioamrywiaeth mewn unrhyw ffordd?

Nod ein cynigion yn y Papur Gwyn yw lleihau'r tebygolrwydd o dirlithriadau yn y dyfodol a lleihau'r effeithiau negyddol cysylltiedig, gan gynnwys y rhai ar fioamrywiaeth ac ecosystemau.

Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd o'r pwys mwyaf

7. A gydymffurfir â phob ddeddfwriaeth i sicrhau bod rhywogaethau a chynefinoedd môr a thir yn cael eu diogelu?

Ar hyn o bryd rydym yn cynnal ymchwil i'r cysylltiadau rhwng cyfraith amgylcheddol a diogelwch tomenni glo. Bydd ffrwyth yr ymchwil hon yn cael ei chynnwys yn yr asesiad effaith integredig ar gyfer unrhyw fil arfaethedig.

8. A yw'r cynnig yn ceisio cynnal a gwella bioamrywiaeth yn gyntaf?

Mae ein cynigion yn ceisio mynd i'r afael yn bennaf oll â gwneud tomenni glo segur yn ddiogel a lleihau'r tebygolrwydd o dirlithriadau yn y dyfodol a'r effeithiau negyddol all ddeillio o hynny.

9. A yw eich cynnig yn cyfrannu at greu cynefin newydd?

Mae ein cynigion presennol yn canolbwyntio yn unig ar gyflwyno trefn newydd ar gyfer rheoli tomenni glo. Ond bydd prosiect arall o fewn y rhaglen diogelwch tomenni glo yn ystyried cyfleoedd i adfer tomenni, gan gynnwys asesu rôl tomenni glo wrth greu rhwydweithiau ecolegol ac ardaloedd ar gyfer plannu coed.